

Mae NoFit State yn chwilio am hyd at bedwar Ymddiriedolwr newydd. Rydym yn fwrdd cryf sydd ag amrywiaeth eang o sgiliau ac arbenigeddau – a hoffem adeiladu ar ein cryfderau presennol.

Yn benodol, hoffem gryfhau ein presenoldeb a'n gallu i gyfathrebu'n ddigidol ac ar lein, ehangu'n partneriaethau ym meysydd busnes, addysg a datblygu, a chrosawu lleisiau bywiog o sector y syrcas a'r tu hwnt i roi hwb i'n gwaith creadigol.

Y Cefndir

Mae NoFit State yn gwmni syrcas gyfoes uchel ei barch. Yng Nghymru y mae ei wreiddiau ond mae ganddo fydolwg rhyngwladol. Dros y tair blynedd diwethaf, cafodd y cwmni ganmoliaeth fawr am gynrychiadau a gyflwynwyd mewn canolfannau o Fangor i Barcelona, o Newcastle under Lyme i Efrog Newydd, o Hull i Hong Kong, ac o Milton Keynes i Melbourne. Mae hefyd wedi cyflwyno prosiectau cyfranogol ledled Cymru mewn ysgolion, cartrefi gofal preswyl, neuaddau eglwysi a swyddfeydd.

Ein Gweledigaeth

- Fe wnawn ni greu gwaith gwych
- Fe wnawn ni ysbrydoli teyrngarwch ac angerdd
- Fe wnawn ni newid bywydau pobl
- Fe wnawn ni droedio'n ysgafn ar y ddaear
- Fe fyddwn ni'n gwmni gwir gynaliadwy
- Fe fyddwn ni'n rhan gref o sector byrlymus ac egnïol

Caiff NoFit State ei symbylu gan yr awydd i greu perfformiadau grymus sy'n archwilio ac yn gwthio ffiniau ffurfiau confensiynol mewn ffyrdd newydd a dadlennol; i greu gwaith synhwyrus, uniongyrchol, gafaelgar; i chwalu'r rhwystrau a gaiff eu greu gan allu gwag; ac i adeiladu cwmni lle mae pobl gyffredin yn gwneud pethau rhyfeddol.

Llwyddodd y cwmni i dyfu a ffynnu oherwydd grantiau sylweddol a rheolaidd gan arianwyr amrywiol yn cynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Arts Council England, Llywodraeth Cymru, Cyngor Dinas Caerdydd, y Cyngor Prydeinig, a rhwydwaith cynyddol o bartneriaethau gydag awdurdodau lleol, canolfannau perfformio a gwyliau ym mhedwar ban byd sy'n comisiynu, yn cynhyrchu ac yn cyflwyno sioeau.

Un elfen hanfodol o lwyddiant y cwmni yw'r awydd entrepreneuriaidd cryf iawn sy'n defnyddio arian cyhoeddus fel buddsoddiad yn hytrach na fel cymhorthdal. O ganlyniad i hynny, mae incwm y cwmni yn dod o ffynonellau amrywiol iawn, ac mae

grantiau'n rhan anarferol o isel o'i drosiant, gyda lefel yr arian grant am bob buddiolwr yn anarferol o isel. Yn ogystal â bod yn dystiolaeth o entrepreneuriaeth a gwaith caled, mae hyn yn dangos bod enillion y cwmni ar fuddsoddiadau cyhoeddus yn dod o ganlyniad i ganolbwyntio ar ansawdd artistig, a defnyddio'i sgiliau, ei strwythurau a'i drefniadau gweithio i feithrin partneriaethau cryf ac i ddatblygu perthynas gref â'r cyhoedd yn ogystal â phlesio'r beirniaid.

Mae NoFit State yn meithrin diwylliant arloesol – gan ei herio'i hunan yn barhaus i sbarduno syniadau a chreadigrwydd. I'r cwmni hwn, mae entrepreneuriaeth yn fwy o lawer na dyfais fusnes – mae'n ffordd o weithio lle caiff syniadau a dulliau gweithredu eu herio'n barhaus, gan feddwl yn galed beth mae'r cwmni'n ei wneud a sut. Trwy rwydweithiau rhyngwladol a chymryd rhan mewn fforymau cenedlaethol a rhyngwladol, gall y cwmni ddysgu oddi wrth sefydliadau eraill tebyg a chael ei ysbrydoli ganddynt, gan fynd i'r afael â'r problemau a'r heriau sy'n wynebu'r sector.

Mae gan y cwmni drosiant o tua £2m y flwyddyn ac mae'n dod i gysylltiad â rhwng 100,000 a 120,000 o fuddiolwyr bob blwyddyn.

Rhaglenni Cymunedol, Addysg a Hyfforddiant

Trwy ei Raglen Gymunedol ac Addysg, daw NoFit State i gysylltiad â rhyw 25,000 o fuddiolwyr y flwyddyn trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. O ddsbarthiadau wythnosol i weithdai mewn ysgolion a chanolfannau cymuned, cynyrchiadau cymunedol, rhaglenni hyfforddi a rhaglenni cyfnewid rhyngwladol – mae'r cwmni'n creu sbectrwm cyfoethog o gyfleoedd i bobl o bob oed, a phob gallu, i gymryd rhan mewn gwaith syrcas.

Cynyrchiadau Teithiol Proffesiynol

Mae rhaglen deithiau flynyddol y cwmni'n cynnwys cynyrchiadau proffesiynol bach a mawr mewn gwahanol gyd-destunau perfformio: o berfformiadau awyr-agored a safle-benodol i gynulleidfa o 3,000–5,000, i deithiau ym Mhabel Fawr bwrpasol y cwmni a chynyrchiadau llai ar gyfer theatrau canolig eu maint. Nod NoFit State yw creu cynyrchiadau gyda'r gorau yn y byd ar y cyd â phartneriaid o Brydain a thramor.

Cleientiaid Corfforaethol

Mae NoFit State yn elusen gofrestrdig ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant sy'n llwyr berchen ar is-gwmni masnachu – NoFit State Trading. Mae NoFit State Trading yn cyflenwi nifer o wahanol wasanaethau i gleientiaid corfforaethol, o weithdai meithrin fîm i sesiynau lansio nwyddau. Ymhlith y cleientiaid presennol a'r rhai diweddar mae:

Admiral Insurance
BBC
Cymdeithas Bêl-droed Cymru
Cwmni Cyfreithwyr Hugh James

Legal & General
ING
Cymdeithas Adeiladu'r Principality
Shine TV
S4C
Tommy Hilfiger

Swyddogaeth yr Ymddiriedolwyr

Y Cyd-destun

Mae gan y cwmni Fwrdd abl ac ymroddedig, Tîm Gweithredol rhagorol a chydwybodol, a chyfnod cyffrous a heriol o ddatblygu o'i flaen. Yn ogystal â'n rhaglen gynhwysfawr o deithio gartref a thramor, a'n rhaglen amrywiol o waith cyfranogol ac addysgol yng Nghymru, rydym wrthi'n dechrau cynllunio datblygiad cyfalaf sylweddol; datblygu man creu, ymarfer a pherfformio pwrpasol yng Nghaerdydd.

Y Cyfle

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd gynnig arweiniad i NoFit State gan harneisio a chyfeirio ymdrechion y Tîm Gweithredol i gefnogi gweithgareddau elusennol, artistig ac addysgol eang y cwmni.

Gan fod nifer o'r Ymddiriedolwyr wedi ymddeol yn 2017 a 2018 mae NoFit State wrthi'n penderfynu ar anghenion y cwmni ac yn chwilio am Ymddiriedolwyr newydd sy'n fodlon ymuno â'r Bwrdd.

Llywodraethiant

Mudiad aelodaeth yw NoFit State, ac mae'n elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant sy'n llwyr berchen ar is-gwmni masnachu. Mae gan Aelodau'r Cwmni hawl i fynd i'r Cyfarfodydd Cyffredinol Blyneddol ac i bleidleisio yno. Disgwylir i'r cyfarwyddwyr gydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol, ariannol ac ymddiriedol o dan gyfraith cwmnïau ac, fel Ymddiriedolwyr, rhaid iddynt gydymffurfio â chyfraith elusennau hefyd. Er bod llawer o'r dyletswyddau hyn wedi'u dirprwyo i'r Tîm Gweithredol, y Bwrdd sy'n pennu'r cyd-destun ar gyfer dirprwyo ac ar gyfer pwerau dirprwyedig penodol ac, yn y pen draw, y Bwrdd Cyfarwyddwyr sy'n gydgyfrifol am bob gwedd ar weithrediad y Cwmni.

Mae i'r Bwrdd ddau is-bwyllgor: Cyllid ac Adeiladau. Mae gan aelodau'r Bwrdd presennol brofiad mewn meysydd amrywiol iawn – proffesiynol, corfforaethol a'r celfyddydau – a'r profiad i gefnogi datblygiad NoFit State. Fodd bynnag, gan fod nifer o'r aelodau newydd ymddeol neu ar fin gwneud, pan benodir Cadeirydd bydd angen iddo/iddi fynd ati i recriwtio hyd at bedwar o Ymddiriedolwyr newydd i'r Bwrdd dros y 12 mis nesaf.

Ymrwymiad o ran Amser

Mae rôl Ymddiriedolwr yn benodiad rhan-amser, di-dâl anweithredol. Penodir pob Ymddiriedolwr am gyfnod cychwynnol o dair blynedd gyda'r opsiwn o ddychwelyd am ail gyfnod. Yn ogystal â'r pedwar Cyfarfod o'r Bwrdd bob blwyddyn a'r diwrnod cwrdd i ffwrdd blyneddol, disgwylir i'r Ymddiriedolwyr ddod i rai perfformiadau,

digwyddiadau datblygu a sesiynau addysgol, a sicrhau eu bod ar gael i gyfarfod â'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Artistig a gwahanol randdeiliaid yn ôl yr angen. Tuag un diwrnod y chwarter fydd cyfanswm yr ymrwymiad.

Y Person

Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno ardderchog, yn gyfforddus mewn rôl lysgenhadol ac yn ymddangos mewn fforymau cyhoeddus amrywiol

Cariad at y celfyddydau perfformio, yn ddelfrydol â diddordeb mawr mewn syrcau gyfoes a pherfformiadau cyfrwng cymysg

Dealltwriaeth o gefndir, diwylliant ac ethos cymdeithasol NoFit State fel cwmni cynhyrchu o bwys sydd â rhaglenni cyfranogi a hyfforddi cryf a llewyrchus

Sgiliau rhyngpersonol a sgiliau tîm rhagorol, yn gyfarwydd â gweithio gyda nifer o wahanol randdeiliaid o bwys o wahanol gefndiroedd

Cyfathrebwyr rhugl ac argyhoeddiadol, a all gynrychioli'r sefydliad yn allanol ac yn fewnol

Rhywun â rhwydwaith da o gysylltiadau ac sy'n barod i'w ddefnyddio er budd NoFit State

Sut i Wneud Cais

Dylid gwneud cais trwy CV a datganiad ategol yn amlinellu'r rhesymau pam y mae gennych ddiddordeb yn y rôl a pham y credwch eich bod yn addas ar ei chyfer. Nodwch eich manylion cysylltu yn llawn, yn cynnwys rhifau ffôn dydd a gyda'r nos ar dudalen flaen y cais.

Dylid ymgeisio trwy ebostio Lizzy Ferguson, Gweinyddydd y Cwmni ar lizzy@nofitstate.org

Os hoffech sgwrs anffurfiol, gyfrinachol cyn cyflwyno'ch cais, cysylltwch ag:

Alison Woods, Cyfarwyddwr Gweithredol, ar +44 (0) 2920 221330 neu trwy ebost alison@NoFitstate.com

Yvette Vaughn Jones, Cadeirydd, ar 07816 781 287 neu trwy ebostio yvjones@visitingarts.org.uk

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau – 31 Mai 2019

Bydd cyfle i gyfarfod â'r Bwrdd presennol a mynd i un neu ddau o gyfarfodydd y Bwrdd fel sylwedydd dros yr haf cyn Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol nesaf y cwmni yn yr hydref 2019.

Cynhelir y cyfweiliadau yng Nghaerdydd ym mis Mehefin 2019.